*Cyngor Cymuned Llanllwchaearn Community Council*
*Haulfan, Llanarth, Ceredigion. SA47 0NH*
*Clerc/Clerk: Shan Gwyn Phone/Ffon: 01545 580818*

**Cofnodion Cyfarfod 15.04.2021 - drwy 'Zoom'**

**Yn Bresennol**
Y Cynghorwyr Gill Hearne, Meleri Richards, Gareth Ioan, ,Dai Morgan, Euros Lloyd, Gareth Lloyd a'r clerc.

**Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Silyn Roberts.

**Cofnodion**
Cynigiwyd cofnodion mis Mawrth yn gywir gan y Cyng Gill Hearne ac ategwyd hyn gan y Cyng Meleri Richards.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
*Cynllun mesur cyflymdra traffig* Dim diweddariad phellach ar hyn o bryd. Nodwyd fod y PCSO Trish Smith bellach wedi ymddiswyddo.

*Coed ger y man chwarae* Mae'r Cyng Gareth Ioan wedi gadael neges gyda Dylan Jones gyda chais pellach ynglyn a torri'r clawdd ger Bro Hafan.

*Swydd y Clerc* Mi fydd y Cynghorwyr Gareth Ioan a Meleri Richards yn cyfweld yr ymgeisydd sef Sioned Evans nos Fawrth 20 Ebrill am 7.30 o'r gloch drwy 'Zoom'.

*Golau Cymunedol ger rhwng Pencnwc Isaf a Parc yr Efail* Mae cwmni SSE wedi cadarnhau derbyn y taliad ac ar fin darparu dyddiad ar gyfer gosod y golau newydd.

**Adroddiad Ariannol**
Derbyniwyd adroddiad ariannol mis Mawrth yn gywir a rhoddwyd caniatád i dalu'r canlynol:-

Tindle Newspapers Wales & The Borders - £164.16

**Gohebiaeth**
*Cyfoeth Naturiol Cymru – Adnewyddu Cod Cefn Gwlad 2021 – Geiriad terfynol* Mi fydd y clerc yn dosbarthu'r ddogfen uchod drwy e-bost.

*Parc y Gof* Derbyniwyd e-bost oddi wrth Rebecca Castle yn adrodd fod y siglen ar y maes chwarae wedi dod yn rhydd. Hefyd mae yna broblem gyda arwyneb y maes chwarae sydd yn slic iawn yn ystod cyfnodau gwlyb. Mi fydd y Cyng Dai Morgan yn ymweld a'r safle i wneud arolwg o'r sefyllfa. Hefyd mi fydd y clerc yn cysylltu gyda dau gwmni lleol er mwyn trefnu glanhau'r arwyneb.

**Unrhyw Fater Arall**
*Sedd Bro Hafan* Mae rhai o'r prennau y sedd yma wedi pydru. Mi fydd Dai Morgan yn ymweld a'r sedd er mwyn penderfynu a oes eisiau mynd a'r sedd i ffwrdd.

*Llwybr Cyhoeddus Penlon – Blaenrhyd* Mae Gwyneth Mai wedi adrodd fod coeden wedi cwympo ar draws y llwybr uchod. Mi fydd y Cyng Gareth Ioan yn trefnu clirio'r llwybr.